Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Adroddiad Blynyddol
## 2023/24

**Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**



Adroddiad cryno ar gyfer POB oed

# Helô! gan y Cadeiryddion

**Gredwch chi hyn?** Mae 10 mlynedd bellach ers i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru gychwyn, ac rydym yn teimlo'n eithaf bodlon ein byd am y gefnogaeth rydym wedi'i rhoi i blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy fabwysiadu. Er ein bod wedi gweld rhai cyfnodau anodd fel pandemig Covid-19 a chynnydd mewn costau byw, rydym wedi parhau i wella a gwella gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu plant a phobl ifanc i ddod o hyd i'r cartrefi llawn cariad y maent yn eu haeddu.




# Felly, beth yn union yw'r GMC?

Mae’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) fel math o uwch-drefnydd gwasanaethau mabwysiadu.

Rydym yn cydweithio gydag awdurdodau lleol, elusennau, gwasanaethau iechyd ac addysg i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Mae pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o’r GMC. Maent yn dod at ei gilydd mewn rhanbarthau i ddod o hyd i deuluoedd i blant sydd eu hangen; maent yn hyfforddi rhieni sy’n mabwysiadu, yn cefnogi rhieni biolegol, ac yn helpu oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu. Mae’r elusennau hefyd yn hyfforddi ac yn cefnogi rhieni sy’n mabwysiadu, a’u plant. Mae gennym dîm canolog bach ond hynod nerthol, sy’n cefnogi’r holl wasanaethau eraill i sicrhau bod hyn i gyd yn digwydd heb unrhyw broblem.

**Beth yw awdurdod lleol?**
Awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am lawer o bethau pwysig fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, ffyrdd, a hyd yn oed casglu gwastraff mewn rhai ardaloedd, fel Pen-y-bont ar Ogwr neu Gaerffili. Maen nhw ychydig fel llywodraeth fach ar gyfer pob ardal.



# Y pethau cŵl a wnaethom yn 23/24

**Ymddiheuro am arferion mabwysiadu yn y gorffennol**

Ymddiheurodd Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru am rai arferion mabwysiadu a ddigwyddodd ymhell yn ôl rhwng y 1950au a'r 1970au.

**Adroddiad Baromedr Mabwysiadu**

Cawsom ein cymeradwyo am yr adroddiad hwn, sy'n dangos bod gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn gwneud yn dda iawn o'u cymharu â gweddill y DU.

**PRIDE Cymru 2023**

Cawsom amser anhygoel yn nigwyddiad PRIDE Cymru, lle buom yn sgwrsio gyda llawer o bobl am fabwysiadu a chlywed straeon anhygoel.

**Adnoddau newydd**

Gwnaethom lansio Pecyn Cymorth i Gyflogwyr a chanllawiau newydd i helpu gyda mabwysiadu yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Gwobrau ac ymgyrchoedd**

Cipiodd ein podlediad 'Dweud y Gwir yn Blaen' Wobr Arian yng Ngwobrau Podlediadau Prydain, a defnyddiom ein hymgyrch wych 'Dewis Teulu' unwaith eto yn ystod Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu.



# EIN BLAENORIAETHAU MAWR

## Blaenoriaeth A: Dod o hyd i'r teuluoedd gorau

Rydym bob amser yn chwilio am y teuluoedd gorau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd eu hangen. Eleni, buom yn greadigol o ran y ffordd rydyn ni'n lledaenu'r gair am fabwysiadu. Gwnaethom hyd yn oed neidio ar TikTok a Spotify i gyffroi pobl am fabwysiadu!

### Gwnaethom:

- **Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu 2023:** Aethom â'n hymgyrch 'Dewis Teulu' i'r lefel nesaf, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen.
- **Cofrestr Mabwysiadu i Gymru (ARW):** Dyma un o'n hoffer yr ydym yn troi ato i baru plant a phobl ifanc â'u teuluoedd newydd.
- **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP):** Mae'r rhaglen hon yn sicrhau nad oes rhaid i blant symud o gwmpas yn ormodol cyn dod o hyd i'w cartref am byth.
- **Dysgu a datblygu:** Gwnaethom sefydlu rhai rhaglenni hyfforddi a gweminarau newydd, ardderchog, i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ym maes mabwysiadu yn cyrraedd y brig.



# Blaenoriaeth B: Cymorth gwych wrth fabwysiadu

Mae mabwysiadu yn dipyn o beth, ac rydym yma i gefnogi teuluoedd bob cam o'r ffordd. Mynd amdani cyn gynted ag y gallwn yw ein nod, i helpu, a sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael dechrau anodd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

## Uchafbwyntiau:

- **Cynlluniau cymorth:** Gwnaethom greu cynlluniau cymorth pwrpasol ar gyfer 1,591 o blant a'u teuluoedd, i'w helpu ar hyd eu taith fabwysiadu.
- **Llwybr Gwasanaeth:** Rhoddodd y gwasanaeth hwn sydd yng ngofal Adoption UK, gefnogaeth cyfoedion a chymorth magu plant i 313 o deuluoedd.
- **Gwasanaeth Cysylltu:** Daeth y rhaglen hon â 389 o blant a phobl ifanc ynghyd drwy weithgareddau a digwyddiadau difyr, a hyd yn oed Cyngor Ieuenctid a helpodd i lunio'r hyn y mae'r GMC yn ei wneud.



# Blaenoriaeth C:
# Cadw mewn cysylltiad â theuluoedd biolegol

Gwyddom fod cadw mewn cysylltiad â theuluoedd biolegol yn bwysig i lawer o blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu, felly rydym yma i'w helpu i wneud hynny mewn ffordd sy'n teimlo'n iawn.

## Gwnaethom:

- **Cynlluniau cyswllt:** Mae gan bron pob plentyn a pherson ifanc a gafodd eu lleoli gennym eleni, gynllun i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd biolegol, naill ai drwy ymweliadau neu lythyrau
- **Hyfforddiant a chefnogaeth:** Aethom ati i hyfforddi ein staff i fod yn sêr o ran rheoli'r cysylltiadau hyn a meddwl am ffyrdd newydd o siarad â phlant am gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd biolegol.



# Blaenoriaeth D: Sicrhau ei bod yn hawdd cael hyd i gofnodion mabwysiadu

Rydym am ei gwneud hi'n hawdd i bobl sydd wedi cael eu mabwysiadu, ddarganfod mwy am eu gorffennol pan fyddant yn oedolyn ac yn barod i wneud hynny.

## Gwnaethom y pethau cŵl canlynol:

- **Gwasanaeth arbrofol newydd:** Eleni, dechreuom ni wasanaeth newydd gwych i helpu pobl a gafodd eu mabwysiadu cyn 1976 i ddod o hyd i'w cofnodion ac ailgysylltu â'u teuluoedd biolegol. Rydym yn bwriadu helpu hyd yn oed mwy o bobl y flwyddyn nesaf!



# Blaenoriaeth E: Cadw pethau i lifo'n esmwyth

Ein nod yw sicrhau bod y GMC a Maethu Cymru yn llifo’n effeithiol. Gwnaethom sefydlu pwyllgor newydd eleni i gadw popeth ar y trywydd iawn a’n helpu ni i wneud y penderfyniadau gorau.

## Ffaith ddifyr:

- **Cynadleddau ar-lein:** Trwy sefydliad o’r enw CASCADE sydd wedi’i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd gwnaethom eu helpu i gynnal cynhadledd ar lein, sef ‘Ail-fframio Mabwysiadu’ gyda gweithgareddau creadigol a gweminarau, ac fe wnaeth pobl o bob cwr o’r byd ymuno!



# Canmoliaeth a chwynion

**Rydyn ni wrth ein bodd i glywed yr hyn rydych chi'n ei feddwl!**
Eleni, cawsom ychydig o gwynion (a gafodd eu datrys yn gyflym) a llwyth o adborth cadarnhaol. Dyma ychydig o flas o'r hyn oedd gan bobl i'w ddweud:

- **Gan fabwysiadwyr:** "Diolch am eich holl gefnogaeth. Mae'n setlo yn hyfryd. Mae'r sesiynau paratoi wedi helpu llawer. Dangosodd ei botel o gariad i mi ac roedd yn golygu cymaint iddo."

- **Gan bobl ifanc a gafodd eu mabwysiadu:** "Diolch i bawb a helpodd fi fel plentyn a'm symud i fy nheulu mabwysiadol. Mae cael fy mabwysiadu wedi fy ngwneud yn gryf a chefais blentyndod anhygoel."



# Sut rydym yn cael ein hariannu



Rydym yn cael ein harian gan Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol, sy’n ein helpu i gynnal ein holl raglenni anhygoel. Gwnaethom yn siŵr ein bod yn defnyddio ein cyllid yn ddoeth i gefnogi’r holl waith gwych rydym yn ei wneud.

# ...ac yn olaf

## Gair gan ein Cyfarwyddwr




Wrth i ni ddathlu degawd, mae’n amlwg ein bod wedi dod yn bell o ran sicrhau bod gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn well nag erioed. Ond mae gennym rai heriau o hyd, fel sicrhau bod gennym ddigon o arian i gadw i fyny â’r angen cynyddol am ein gwasanaethau.

Mae mabwysiadu yn mynd yn fwyfwy cymhleth, ac rydym yn gweld bod pobl angen gwahanol fathau o gefnogaeth. Byddwn yn parhau i weithio’n galed i ddiwallu’r anghenion hyn ac yn parhau i helpu plant a theuluoedd ledled Cymru.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**
**Tîm Canolog**
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 475 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW
F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
**www.adoptcymru.com**

@nas_cymru
@nationaladoptionservice